TAG UG/SAFON UWCH

# TAG UG/SAFON UWCH CBAC
# CYMDEITHASEG

ACHREDWYD GAN LYWODRAETH CYMRU



## MANYLEB

Addysgu o 2015

I'w ddyfarnu o 2016 (UG)
I'w ddyfarnu o 2017 (Safon Uwch)

Fersiwn 3 Mehefin 2020

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Lywodraeth Cymru ar gael i ganolfannau yn Lloegr.

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Newidiwyd yr adran 'Cofrestru' i egluro rheolau ailsefyll. | 19 |
| 3 | Eglurwyd mai cyfle asesu olaf yr opsiwn 'gwleidyddiaeth' yn Uned 3 'Grym a Rheolaeth' yw haf 2021. | 2, 8, 14, 15 |

© WJEC CBAC Ltd.

# TAG UG a SAFON UWCH CYMDEITHASEG CBAC

## I'w addysgu o 2015
## UG i'w ddyfarnu o 2016
## Safon Uwch i'w dyfarnu o 2017

Mae'r fanyleb hon yn bodloni'r Egwyddorion Cymwysterau TAG UG a Safon Uwch sy'n pennu gofynion yr holl fanylebau TAG newydd neu ddiwygiedig a ddatblygwyd i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2015.

Tudalen


| | | |
|---|---|---|
| Crynodeb o'r asesu | | 2 |
| 1. | Rhagarweiniad | 5 |
| | 1.1. Nodau ac amcanion | 5 |
| | 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant | 6 |
| | 1.3 Cydraddoldeb ac asesu teg | 6 |
| | 1.4 Bagloriaeth Cymru | 7 |
| | 1.5 Persbectif Cymreig | 7 |
| 2. | Cynnwys y pwnc | 8 |
| | 2.1 Unedau UG | 9 |
| | 2.2 Unedau U2 | 14 |
| 3. | Asesu | 18 |
| | 3.1 Amcanion asesu a phwysoli | 18 |
| 4. | Gwybodaeth dechnegol | 19 |
| | 4.1 Cofrestru | 19 |
| | 4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl | 20 |


© WJEC CBAC Ltd.

# TAG UG a SAFON UWCH CYMDEITHASEG (CYMRU)

## CRYNODEB O'R ASESU

Mae'r fanyleb hon wedi'i rhannu'n gyfanswm o 4 uned, 2 uned UG a 2 uned U2. Mae'r pwysoli a nodir isod yn cael ei fynegi yn nhermau'r cymhwyster Safon Uwch llawn.

**UG Uned 1: Caffael Diwylliant**
**Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud**
**15% o'r cymhwyster — 60 marc**

Adran A — 15 marc
Mae'r adran hon yn cynnwys un cwestiwn strwythuredig ar gysyniadau allweddol a phrosesau trosglwyddo diwylliant, cymdeithasoli a chaffael hunaniaeth.

Adran B — 45 marc
Mae'r adran hon yn cynnig dewis o ddau opsiwn:

- teuluoedd ac aelwydydd
- diwylliannau ieuenctid

Mae pob opsiwn yn cynnwys cwestiynau gorfodol a dewis un o ddau gwestiwn traethawd.

**UG Uned 2: Deall Cymdeithas a Dulliau o Ymchwilio Cymdeithasegol**
**Arholiad ysgrifenedig: 2 awr**
**25% o'r cymhwyster — 90 marc**

Adran A Dulliau Ymchwilio Cymdeithasegol — 35 marc
Mae'r adran hon yn cynnwys un cwestiwn gorfodol. Bydd hwn yn seiliedig ar ddeunydd ysgogol a fydd yn grynodeb o ddarn o ymchwil cymdeithasegol.

Adran B Deall Cymdeithas — 55 marc
Mae'r adran hon yn cynnig dewis o dri opsiwn:

- addysg
- y cyfryngau
- crefydd

Mae pob opsiwn yn cynnwys cwestiynau gorfodol seiliedig ar ddata a dewis o un o ddau gwestiwn traethawd.

**U2 Uned 3: Grym a Rheolaeth**
**Arholiad ysgrifenedig: 2 awr**
**25% o'r cymhwyster — 70 marc**

Mae'r cwestiynau yn yr adran hon ar y thema grym. Mae dewis o bedwar opsiwn:

- trosedd a gwyredd
- iechyd ac anabledd
- gwleidyddiaeth (i'w asesu yn 2021 yn unig)
- cymdeithaseg fyd-eang

Mae pob opsiwn yn cynnwys cwestiynau gorfodol a dewis o un o ddau gwestiwn traethawd.

**U2 Uned 4: Anghydraddoldeb Cymdeithasol a Dulliau Cymhwysol o Ymchwilio Cymdeithasegol**
**Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 15 munud**
**35% o'r cymhwyster — 100 marc**

Adran A Dulliau Cymhwysol o Ymchwilio Cymdeithasegol — 40 marc
Un cwestiwn gorfodol a fydd yn gofyn i ddysgwyr ddylunio, cyfiawnhau a gwerthuso darn o ymchwil cymdeithasegol.

Adran B Anghydraddoldeb Cymdeithasol — 60 marc
Bydd cwestiynau yn yr adran hon ar thema gwahaniaethu cymdeithasol a haenau cymdeithasol. Bydd y rhain yn cynnwys cwestiwn gorfodol a dewis o un o ddau gwestiwn traethawd.

© WJEC CBAC Ltd.

Manyleb unedol yw hon sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael yn 2016 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn haf 2016.

Bydd Uned 3 ac Uned 4 ar gael yn 2017 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster Safon Uwch am y tro cyntaf yn haf 2017.

**Rhif y Cymhwyster ar restr The Register:**
**TAG UG: 601/5258/8**
**TAG Safon Uwch: 601/5237/0**

**Rhif Cymeradwyo Cymwysterau Cymru ar restr QiW:**
**TAG UG: C00/0722/3**
**TAG Safon Uwch: C00/0722/1**

© WJEC CBAC Ltd.

# TAG UG a SAFON UWCH CYMDEITHASEG

# 1 RHAGARWEINIAD

## 1.1 Nodau ac amcanion

Rhaid i astudiaeth Safon Uwch Cymdeithaseg ganolbwyntio ar gymdeithas gyfoes a chyfeirio at Gymru lle bo'n berthnasol. Rhaid i astudiaeth cymdeithaseg annog datblygiad meddwl beirniadol a myfyriol gan ddangos parch at amrywiaeth gymdeithasol. Dylai sicrhau bod ymwybyddiaeth o bwysigrwydd strwythur cymdeithasol a gweithredu cymdeithasol wrth egluro materion cymdeithasol. Dylid annog dysgwyr i ddatblygu eu hymwybyddiaeth gymdeithasegol eu hunain drwy ymgysylltu'n weithredol â'r byd cymdeithasol cyfoes a'r gymdeithas yng Nghymru.

Mae manyleb UG a Safon Uwch Cymdeithaseg CBAC yn annog dysgwyr i:

- gaffael gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol o brosesau cymdeithasol cyfoes a newidiadau cymdeithasol
- gwerthfawrogi arwyddocâd materion damcaniaethol a chysyniadol wrth drafod dadleuon cymdeithasegol
- deall a gwerthuso methodoleg gymdeithasegol ac amrediad o ddulliau ymchwil trwy gymryd rhan weithredol yn y broses ymchwil
- datblygu sgiliau sy'n galluogi unigolion i ganolbwyntio ar eu hunaniaeth, eu rolau a'u cyfrifoldebau personol yn y gymdeithas
- datblygu diddordeb gydol oes mewn materion cymdeithasol gan gyfeirio at Gymru yn benodol.

Mae'r fanyleb hon yn arwain athrawon a dysgwyr tuag at gaffael gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion a dadleuon cymdeithasegol allweddol. Cafodd ei llunio er mwyn annog datblygu sgiliau ar lefel uwch megis dadansoddi a gwerthuso. Bydd dysgwyr yn cael eu herio i ddangos eu bod yn gallu defnyddio eu gwybodaeth gymdeithasegol yn briodol yng nghyd-destun yr hyn a ofynnir gan y cwestiynau.

Gan fod yma bwyslais ar sgiliau mae'r fanyleb hon yn gyfrwng rhagorol ar gyfer datblygu galluoedd trosglwyddadwy y gallai'r dysgwr eu defnyddio mewn meysydd academaidd ac yn broffesiynol fel ei gilydd. Bydd cwestiynau'n caniatáu i ddysgwyr ymateb mewn ffyrdd nad ydynt yn hollgynhwysfawr, i ddatblygu ac arddangos eu "dychymyg cymdeithasegol" trwy eu sylwebaeth ar ddamcaniaethau a thystiolaeth gymdeithasegol.

© WJEC CBAC Ltd.

## 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Nid oes unrhyw ofynion dysgu blaenorol.  Y ganolfan sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu pennu o ran cael mynediad at gwrs sy'n dilyn y fanyleb hon. Mae'n rhesymol derbyn y bydd llawer o'r dysgwyr wedi ennill cymwysterau sy'n cyfateb i Lefel 2 CA4.  Bydd sgiliau Rhifedd/Mathemateg, Llythrennedd/Saesneg a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn sylfaen dda ar gyfer symud ymlaen i'r cymhwyster Lefel 3 hwn.

Bydd rhai dysgwyr eisoes wedi meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau o astudio'r pwnc cymdeithaseg ar lefel TGAU a bydd y fanyleb hon yn adeiladu ar hynny; fodd bynnag, nid yw'n eithrio dysgwyr sy'n astudio cymdeithaseg am y tro cyntaf.

Mae'r fanyleb hon yn rhoi sylfaen addas ar gyfer astudio cymdeithaseg neu faes perthynol trwy ddilyn amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch, symud ymlaen i'r lefel nesaf o gymwysterau galwedigaethol neu gyflogaeth.  Yn ogystal, mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudio sy'n gydlynol, boddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach neu i ddilyn gyrfa yn y pwnc hwn.

Nid yw'r fanyleb hon yn benodol i oedran ac felly mae'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr barhau i ddysgu gydol oes.

## 1.3 Cydraddoldeb ac asesu teg

Gellir astudio'r fanyleb hon gan unrhyw ddysgwr, beth bynnag fo'i ryw, cefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Nid yw'r fanyleb hon yn benodol i oedran ac felly mae'n darparu cyfleoedd i ymgeiswyr barhau i ddysgu gydol oes. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli diddordebau amrywiaeth eang o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Caiff addasiadau rhesymol eu gwneud ar gyfer rhai dysgwyr fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd.  Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn y ddogfen ganlynol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): *Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol.* Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk).

Byddwn yn dilyn egwyddorion y ddogfen hon ac felly, o ganlyniad i ddarpariaeth addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr sydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

© WJEC CBAC Ltd.

## 1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy Graidd Bagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Digidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

## 1.5 Persbectif Cymreig

Rhaid i ddysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, ystyried persbectif Cymreig os bydd cyfle i wneud hynny'n deillio'n naturiol o'r deunydd pwnc ac os byddai gwneud hynny'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwmpas fel dinasyddion o Gymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r byd.

Lle mae meysydd llywodraeth sydd wedi'u datganoli, bydd cyfle gan ddysgwyr i astudio polisïau cymdeithasol Cymru yn eu meysydd astudio dewisol.

Dylai gwrthgyferbyniadau a chymariaethau fod yn amlwg rhwng Cymru a Lloegr lle mae data ar gael i'w hastudio.

© WJEC CBAC Ltd.

# 2 CYNNWYS Y PWNC

Mae pob uned yn gofyn i ddysgwyr arddangos sgiliau hanfodol a ddatblygwyd trwy eu hastudiaeth o gymdeithaseg; hynny yw, y gallu i ddangos eu gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau a materion allweddol yng nghyd-destun damcaniaethau a methodoleg gymdeithasegol. Mae disgwyl i ddysgwyr ddewis, dehongli, cymhwyso a gwerthuso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn amrediad o gyd-destunau damcaniaethol ac ymarferol.

Mae'r fanyleb hon yn ymdrin â'r cysyniadau a'r materion damcaniaethol canlynol:

- trefn cymdeithas, rheolaeth gymdeithasol
- newid cymdeithasol
- gwrthdaro a chonsensws
- strwythur cymdeithasol a gweithredu cymdeithasol
- rôl gwerthoedd
- y berthynas rhwng materion cymdeithaseg a pholisi cymdeithasol cyfoes.

Bydd dysgwyr hefyd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth am ddulliau ymchwilio cymdeithasegol a'r berthynas rhwng damcaniaethu a dulliau. Bydd disgwyl iddynt hefyd ddefnyddio a gwerthuso'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon ar gyfer amrediad o faterion methodolegol perthnasol.

Bydd dysgwyr yn ymdrin â dwy thema wrth astudio cysyniadau a materion damcaniaethol:

- cymdeithasoli, diwylliant a hunaniaeth
- gwahaniaethu cymdeithasol, grym a haenau cymdeithasol.

Bydd pob uned yn ymdrin â'r themâu hyn er y bydd mwy o bwyslais ar y thema gyntaf yn yr unedau UG ac ar yr ail thema yn yr unedau U2.

Rhaid i'r themâu hyn fod wedi'u deall a'u cymhwyso at feysydd penodol o gymdeithaseg yn y gymdeithas gyfoes; Cymru a'r DU ac mewn cyd-destun byd-eang lle bo hynny'n briodol. Bydd y themâu yn cael eu dehongli fel llinynnau'n rhedeg trwy feysydd gorfodol a dewisol y fanyleb. Felly ni ddylent gael eu hystyried fel testunau annibynnol; er enghraifft, gellir cyfeirio at thema cymdeithasoli, diwylliant a hunaniaeth trwy agweddau ar y teulu ond gellid gwneud hynny llawn cystal trwy agweddau ar y cyfryngau neu weithgareddau ieuenctid. Yn yr un modd, gellir cyfeirio at y thema gwahaniaethu cymdeithasol, grym a haenau cymdeithasol trwy astudio addysg ond gellid gwneud hynny llawn cystal trwy astudio gwleidyddiaeth (hyd at haf 2021 yn unig) neu gymdeithaseg fyd-eang.

Ar lefel UG a U2 bydd disgwyl i ddysgwyr arddangos y canlynol:

- amrediad eang a dyfnder o wybodaeth a dealltwriaeth
- sgiliau cymhwyso, dadansoddi, dehongli a gwerthuso

Ar lefel U2 mae mwy o bwyslais ar sgiliau lefel uwch cymhwyso, dadansoddi, dehongli a gwerthuso.

Bydd cynnwys y pwnc yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau hyn.

© WJEC CBAC Ltd.

# 2.1 UNEDAU UG

**Uned 1: Caffael Diwylliant**
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud
15% o'r cymhwyster Safon Uwch (37.5% o'r cymhwyster UG)

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar thema cymdeithasoli, hunaniaeth a diwylliant ac mae wedi'i rhannu'n ddwy adran.

Mae Adran A yr uned hon yn orfodol ac yn canolbwyntio ar gysyniadau allweddol a phrosesau trosglwyddo diwylliant, gan gynnwys cymdeithasoli a chaffael hunaniaeth.

Bydd disgwyl i ddysgwyr ddatblygu dyfnder gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cynnwys pwnc ynghyd â'r gallu i ddadansoddi a defnyddio'r wybodaeth hon gan gyfeirio at enghreifftiau o Gymru lle'n berthnasol.

**Adran A**

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys |
|---|---|
| Lluniad cymdeithasol diwylliant | • Diffinio diwylliant fel ffordd o fyw a thermau fel normau, gwerthoedd, rolau, credoau a statws<br>• Agweddau ar ddiwylliant fel gwisg, iaith, bwyd, cerddoriaeth ac etifeddiaeth<br>• Ystyr lluniad cymdeithasol diwylliant fel plant fferal, newid cymdeithasol a'r ddadl natur/magwraeth<br>• Amrywiaeth ddiwylliannol ac isddiwylliannau gan gyfeirio at enghreifftiau o Gymru lle'n berthnasol |
| Proses a chyfryngau cymdeithasoli | • Y broses o gymdeithasoli cynradd ac eilaidd trwy fodelau rôl, dynwared, sancsiynau a phrosesau sydd yn gysylltiedig â chyfryngau cymdeithasoli penodol<br>• Y broses o drosglwyddo diwylliannol trwy gymdeithasoli cynradd – teuluoedd<br>• Y broses o drosglwyddo diwylliannol trwy gymdeithasoli eilaidd – cyfoedion, addysg, crefydd, y cyfryngau a gwaith<br>• Rheolaeth gymdeithasol ffurfiol/anffurfiol |
| Enghreifftiau o ddylanwad cymdeithasoli ar hunaniaeth | • Hunaniaeth: personol a chymdeithasol<br>• Rhywedd<br>• Dosbarth<br>• Ethnigrwydd<br>• Cenedligrwydd a hunaniaeth Gymreig |

© WJEC CBAC Ltd.

Mae adran B yn datblygu dealltwriaeth o'r cysyniadau allweddol a phrosesau cymdeithasoli a diwylliant trwy astudiaeth fanwl o un o'r ddau opsiwn canlynol:

- teuluoedd ac aelwydydd
- diwylliannau ieuenctid.

Bydd disgwyl i ddysgwyr ddatblygu dyfnder gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cynnwys pwnc a'r gallu i ddadansoddi, cymhwyso a gwerthuso damcaniaethau a thystiolaeth gymdeithasegol.

**Adran B**

| Opsiwn | Manylion y Cynnwys |
|---|---|
| Teuluoedd ac aelwydydd | • Mathau o deuluoedd ac amrywiaeth yng Nghymru a Lloegr<br>• Newidiadau demograffig gan gynnwys priodas, ysgariad, cyd-fyw, disgwyliad oes, ffrwythlondeb, bod yn sengl yng Nghymru a Lloegr<br>• Perthnasoedd mewn teuluoedd ac aelwydydd, gan gyfeirio at newid cymdeithasol<br>• Persbectifau damcaniaethol o deuluoedd ac aelwydydd: swyddogaethol, Marcsaidd, ffeministaidd, ôl-fodernaidd, y Dde Newydd |
| Diwylliannau ieuenctid | • Ffactorau yn dylanwadu ar ffurfio diwylliannau ieuenctid yng Nghymru a Lloegr gan gynnwys y cyfryngau, newidiadau economaidd, globaleiddio ac effaith dosbarth, rhywedd, ethnigrwydd a chenedligrwydd<br>• Y newid yn natur diwylliant ieuenctid a thwf neo-lwythau yng Nghymru a Lloegr<br>• Isddiwylliannau ieuenctid, gwyredd, gan gyfeirio at dramgwyddaeth, trosedd, addysg a'r cyfryngau<br>• Persbectifau damcaniaethol o ddiwylliannau ieuenctid: swyddogaethol, Marcsaidd, ffeministaidd, ôl-fodernaidd, rhyngweithiadol |

© WJEC CBAC Ltd.

**Uned 2: Deall Cymdeithas a Dulliau o Ymchwilio Cymdeithasegol**
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr
25% o'r cymhwyster Safon Uwch (62.5% o'r cymhwyster UG)

Mae Uned 2 yn canolbwyntio ar themâu cymdeithasoli, hunaniaeth a diwylliant a dulliau o ymchwilio cymdeithasegol ac wedi'i rhannu'n ddwy adran.

Mae Adran A yr uned yn orfodol ac yn canolbwyntio ar ddulliau o ymchwilio cymdeithasegol. Bydd disgwyl i ddysgwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau cymdeithasegol a materion methodolegol allweddol ac i ddefnyddio enghreifftiau o ymchwil cymdeithasegol cyfoes gan gyfeirio at enghreifftiau o Gymru lle'n berthnasol er mwyn arddangos y wybodaeth a'r ddealltwriaeth hyn.

**Adran A**

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys |
|---|---|
| Cysyniadau Allweddol | • dilysrwydd<br>• moeseg<br>• dibynadwyedd<br>• cyffredinoladwyedd<br>• cynrychioldeb<br>• gwrthrychedd |
| Dulliau ymchwil cynradd meintiol ac ansoddol gan gyfeirio at enghreifftiau o Gymru lle'n berthnasol | • holiaduron<br>• cyfweliadau<br>• grwpiau ffocws<br>• dulliau arsylwi |
| Dulliau methodolegol o wneud ymchwil | • arolwg<br>• dulliau ethnograffeg<br>• astudiaethau hydredol<br>• plwraliaeth methodolegol a hefyd triongli |
| Dulliau a data eilaidd gan gyfeirio at enghreifftiau o Gymru lle'n berthnasol | • ymchwil cymdeithasegol sy'n bodoli'n barod<br>• ystadegau swyddogol fel setiau o ddata LlC (Llywodraeth Cymru)<br>• dogfennau fel:<br>llythyrau, dyddiaduron ac adroddiadau papur newydd |
| Samplu | • samplau cynrychiadol<br>– ffrâm samplu<br>– hapsamplu syml<br>– hapsamplu haenedig<br>– hapsamplu systematig<br>– samplu cwota<br>• samplu anghynrychiadol<br>– samplu pelen eira<br>– samplu gwirfoddol<br>– samplau cyfle a bwriadus<br>• poblogaeth darged<br>– yr un sy'n rheoli'r fynedfa *(gatekeeper)*<br>– mynediad |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys |
|---|---|
| Materion moesegol | • twyll<br>• sensitifrwydd<br>• cyfrinachedd<br>• cysyniad gwybodus a bod yn agored i niwed<br>• anhysbysrwydd / preifatrwydd<br>• yr hawl i dynnu'n ôl<br>• amddiffyn rhag niwed ar gyfer yr ymchwilydd a'r sampl sy'n cael ei astudio |
| Materion ymarferol | • gweithredoli<br>• dewis testun ymchwil a phoblogaeth darged<br>• mynediad<br>• amser<br>• cost |
| Damcaniaethau ymchwil | • positifiaeth<br>• dehongliadaeth<br>• realaeth |

Mae Adran B yr uned yn datblygu dealltwriaeth o themâu allweddol cymdeithasoli diwylliant a hunaniaeth. Mae'r adran hon yn yr uned hefyd yn cynnwys ystyriaeth o themâu gwahaniaethu, grym a haenau cymdeithasol trwy astudiaeth fanwl o un o'r tri opsiwn canlynol:

- addysg
- y cyfryngau
- crefydd.

Bydd disgwyl i ddysgwyr ddatblygu dyfnder gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cynnwys pwnc a'r gallu i ddadansoddi, cymhwyso a gwerthuso damcaniaethau a thystiolaeth gymdeithasegol gan gyfeirio at enghreifftiau o Gymru lle'n berthnasol.

**Adran B**

| Opsiwn | Manylion y Cynnwys |
|---|---|
| Addysg | • Rôl a swyddogaeth addysg yn y gymdeithas gyfoes<br>• Patrymau a thueddiadau cyrhaeddiad a chyfranogiad gwahaniaethol gan gyfeirio at ddosbarth cymdeithasol, rhywedd ac ethnigrwydd<br>• Polisi cymdeithasol cyfoes mewn perthynas ag addysg yn y gymdeithas yng Nghymru a Lloegr<br>• Dylanwad ffactorau materol, ffactorau diwylliannol a phrosesau fel labelu yn y gyfundrefn addysg ac yn y gymdeithas yn ehangach ar batrymau a thueddiadau mewn cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru a Lloegr<br>• Persbectifau damcaniaethol o addysg: swyddogaethol, Marcsaidd, rhyngweithiadol, ffeministaidd, y Dde Newydd, ôl-fodernaidd |

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| Y cyfryngau | • Rôl y cyfryngau mewn cymdeithas gyfoes gan gynnwys effaith y cyfryngau ar gynulleidfaoedd, y ffyrdd mae cynulleidfaoedd yn defnyddio'r cyfryngau, panig moesol, cyfryngau newydd a globaleiddio a modelau o effeithiau'r cyfryngau<br>• Perchenogaeth a rheolaeth y cyfryngau gan gynnwys rôl pobl broffesiynol yn y cyfryngau, gwerthoedd newyddion, cynnwys y cyfryngau, gwerth newyddiadurol a gosod agenda<br>• Patrymau a thueddiadau yn y cynrychioliad o grwpiau cymdeithasol gan gyfeirio at ddosbarth cymdeithasol, rhywedd, ethnigrwydd, oedran ac anabledd a chenedligrwydd<br>• Polisi cymdeithasol cyfoes mewn perthynas â'r cyfryngau yng Nghymru a Lloegr<br>• Persbectifau damcaniaethol o'r cyfryngau: swyddogaethol, Marcsaidd, neo-Farcsaidd, ffeministaidd, ôl-fodernaidd, plwralaidd |
| Crefydd | • Rôl a swyddogaeth crefydd yn y gymdeithas gyfoes, gan gyfeirio at Gymru lle'n berthnasol<br>• Patrymau a thueddiadau o gyfranogiad a chrefyddoldeb gan gyfeirio at ddosbarth cymdeithasol, rhywedd, ethnigrwydd ac oedran yng Nghymru a Lloegr<br>• Strwythurau a threfniadaethau cymdeithasol gan gynnwys eglwysi, enwadau, mudiadau'r oes newydd, mudiadau crefyddol newydd, ffwndamentaliaeth a seciwlareiddio yng Nghymru a Lloegr<br>• Polisi cymdeithasol cyfoes mewn perthynas â chrefydd yn y gymdeithas yng Nghymru a Lloegr<br>• Persbectifau damcaniaethol o grefydd: Swyddogaethol, Marcsaidd, neo-Farcsaidd, ffeministaidd, Weberaidd, ôl-fodernaidd. |

© WJEC CBAC Ltd.

# 2.2 UNEDAU U2

**Uned 3: Grym a Rheolaeth**
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr
25% o'r cymhwyster

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar themâu grym, gwahaniaethu a haenau cymdeithasol gyda materion yn ymwneud â threfn gymdeithasol a rheolaeth gymdeithasol i'w hastudio trwy un o'r opsiynau canlynol:

- trosedd a gwyredd
- iechyd ac anabledd
- gwleidyddiaeth (i'w asesu yn 2021 yn unig)
- cymdeithaseg fyd-eang

Bydd disgwyl i ddysgwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cynnwys pwnc a'r gallu i ddefnyddio, dadansoddi a gwerthuso damcaniaethau a thystiolaeth gymdeithasegol gan gyfeirio at themâu o Gymru lle'n berthnasol.

| Opsiwn | Manylion y Cynnwys |
|---|---|
| Trosedd a gwyredd | • patrymau o wasgariad cymdeithasol trosedd a gwyredd yn ymwneud â dosbarth cymdeithasol, rhywedd, ethnigrwydd ac oedran yng Nghymru a Lloegr<br>• mesur trosedd; ystadegau swyddogol y llywodraeth gan gynnwys ystadegau'r heddlu ac Arolwg Troseddu Prydain, astudiaethau dioddefwyr ac astudiaethau hunanadrodd ac effaith polisïau cymdeithasol cyfoes ar gyfraddau troseddu yng Nghymru a Lloegr<br>• diffiniadau o drosedd a gwyredd fel lluniadau cymdeithasol gan gynnwys rôl y cyfryngau<br>• dylanwad damcaniaethau ac esboniadau ar bolisi cymdeithasol<br>• damcaniaethau ac esboniadau o drosedd a gwyredd: swyddogaethol, Marcsaidd, neo-Farcsaidd, rhyngweithiadol, realaeth y dde a'r chwith, ôl-fodernaidd, ffeministaidd, is-ddiwylliannol |
| Iechyd ac anabledd | • ystadegau swyddogol a phatrymau a thueddiadau o wasgariad cymdeithasol iechyd ac afiechyd yn ymwneud â dosbarth cymdeithasol, rhywedd, ethnigrwydd ac oedran<br>• esboniadau dros batrymau a thueddiadau yn y gwasgariad o iechyd ac afiechyd gan gynnwys arteffact, hunanddethol, diwylliannol, materol ac anghydraddoldebau o ran cael mynediad i ofal iechyd a'i ddarpariaeth yng Nghymru a Lloegr<br>• diffiniadau a lluniadau cymdeithasol o iechyd, afiechyd ac anabledd, meddyginioli, rolau gweithwyr iechyd proffesiynol a'r effaith mae polisïau iechyd yn ei chael ar y rôl honno<br>• yr effaith mae polisïau cymdeithasol yn ei chael ar iechyd y genedl gan gyfeirio at Gymru a Lloegr<br>• damcaniaethau ac esboniadau o iechyd ac anabledd: swyddogaethol, Marcsaidd, rhyngweithiadol, ffeministaidd, ôl-fodernaidd, model biofeddygol |

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| Gwleidyddiaeth[1]<br>(i'w asesu yn haf 2021 yn unig) | • patrymau a thueddiadau yn y gwasgariad cymdeithasol o gyfranogiad gwleidyddol yn ymwneud â dosbarth cymdeithasol, rhywedd, ethnigrwydd, cenedl ac oedran<br>• esboniadau yn ymwneud â'r gwasgariad o gyfranogiad gwleidyddol gan gynnwys dadymochri pleidiol, dosbarth, rhywedd, oedran, cenedl ac ethnigrwydd<br>• rôl sefydliadau gwleidyddol gan gynnwys carfanau pwyso, pleidiau a'u polisïau, mudiadau cymdeithasol newydd, mudiadau gwrthgyfalafol a gwrthglobaleiddio wrth lunio polisïau a'r broses ddemocrataidd gan gyfeirio at Gymru a dadleuon datganoli lle'n berthnasol<br>• damcaniaethau ac esboniadau o rym a gwleidyddiaeth: swyddogaethol, Marcsaidd, neo-Farcsaidd, ôl-fodernaidd, Weberaidd, plwralaidd, damcaniaethau elît |
| Cymdeithaseg fyd-eang | • patrymau anghydraddoldeb mewn perthynas ag iechyd, addysg, cyflogaeth, tlodi yng Nghymru a Lloegr a'r byd<br>• esboniadau dros batrymau o anghydraddoldeb gan gynnwys poblogaeth, trefoli, ymyleiddio, cymorth, dyled a pholisïau perthnasol, dibyniaeth, esboniadau ffeministaidd<br>• effaith globaleiddio, corfforaethau trawswladol, masnach y byd, sefydliadau anllywodraethol ar bolisi'r byd mewn perthynas â materion datblygu.<br>• damcaniaethau ac esboniadau o ddatblygiad: Marcsaidd, modernaidd, dibyniaeth, damcaniaeth systemau byd-eang |

[1]Asesir yr opsiwn 'gwleidyddiaeth' am y tro olaf yn haf 2021. Ni fydd yr opsiwn hwn ar gael o gyfres arholiadau haf 2022 ymlaen.

© WJEC CBAC Ltd.

**Uned 4 (15: Anghydraddoldeb Cymdeithasol a Dulliau Cymhwysol o Ymchwilio Cymdeithasegol**
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 15 munud
35% o'r cymhwyster

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar themâu gwahaniaethu cymdeithasol, grym a haenau cymdeithasol ac ar gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ddulliau ymchwilio cymdeithasegol. Bydd y pwyslais ar arddangos yn effeithiol gwybodaeth a lefel uchel o sgiliau dadansoddi, dehongli a gwerthuso.

Mae Adran A yn canolbwyntio ar brosesau dylunio ymchwil ac ar gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ddulliau ymholi cymdeithasegol a astudiwyd yn flaenorol yn uned 2.

Bydd disgwyl i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddulliau ymchwil i arddangos sgiliau lefel uchel o ddylunio, dadansoddi, cyfiawnhau a gwerthuso eu cynnig ymchwil eu hunain.

**Adran A**

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys |
|---|---|
| Dylunio ymchwil | • Gweithredoli<br>• Dewis dull penodol gyda chyfiawnhad ac adnabod problemau posibl a'u heffaith<br>• Dewis gan ddefnyddio technegau samplu gyda chyfiawnhad ac adnabod problemau posibl a'u heffaith<br>• Materion moesegol<br>• Materion ymarferol<br>• Dulliau o gyflwyno data a gasglwyd |

© WJEC CBAC Ltd.

Mae Adran B yn canolbwyntio ar themâu gwahaniaethu cymdeithasol, grym a haenau cymdeithasol. Mae'n ofynnol i ddysgwyr ddefnyddio tystiolaeth empirig, data ystadegol ac enghreifftiau i arddangos anghydraddoldeb ac i werthuso defnyddioldeb damcaniaethau cymdeithasegol wrth esbonio'r anghydraddoldebau hyn.

**Adran B**

| **Cynnwys** | **Manylion y Cynnwys** |
|---|---|
| Tystiolaeth ac enghreifftiau o feysydd o anghydraddoldeb yn ymwneud â dosbarth cymdeithasol, rhywedd, ethnigrwydd ac oedran yn y gymdeithas gyfoes gan gyfeirio at Gymru lle mae data ar gael | Gellir defnyddio tystiolaeth ac enghreifftiau o feysydd a astudiwyd yn y fanyleb er enghraifft:<br>• Teuluoedd ac aelwydydd<br>• Diwylliant ieuenctid<br>• Addysg<br>• Crefydd<br>• Y Cyfryngau<br>• Trosedd a gwyredd<br>• Iechyd ac anabledd<br>• Grym<br>• Cymdeithaseg fyd-eang<br>• Gwaith a chyflog<br>• Dosbarthiad cyfoeth ac incwm |
| Damcaniaethau ac esboniadau dros anghydraddoldeb a haenau cymdeithasol yn ymwneud â dosbarth cymdeithasol, rhywedd, ethnigrwydd, oedran a chenedl | • Swyddogaethol<br>• Marcsaidd a neo-Farcsaidd<br>• Weberaidd a neo-Weberaidd<br>• Ffeministaidd<br>• Ôl-fodernaidd<br>• Damcaniaethau'r Dde Newydd |

© WJEC CBAC Ltd.

# 3 ASESU

## 3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u rhoi isod. Mae'n rhaid i ddysgwyr ddangos eu bod yn gallu gwneud y canlynol:

**AA1**
Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth am y canlynol:

- damcaniaethau, cysyniadau a thystiolaeth gymdeithasegol
- dulliau ymchwil cymdeithasegol

**AA2**
Cymhwyso damcaniaethau, cysyniadau, tystiolaeth a dulliau ymchwil cymdeithasegol at faterion amrywiol

**AA3**
Dadansoddi a gwerthuso damcaniaethau, cysyniadau, tystiolaeth a dulliau ymchwil cymdeithasegol er mwyn:

- cyflwyno dadleuon
- llunio barn
- dod i gasgliadau

Dangosir pwysoli'r amcanion asesu isod fel canran o'r Safon Uwch lawn, gyda'r pwysoli UG mewn cromfachau.

| Uned | Pwysoli'r Uned | AA1 | AA2 | AA3 |
|---|---|---|---|---|
| **UG Uned 1** | 15% (37.5%) | 8% (20%) | 4% (10%) | 3% (7.5%) |
| **UG Uned 2** | 25% (62.5%) | 13% (33%) | 7% (17%) | 5% (12.5%) |
| **U2 Uned 3** | 25% | 11% | 9% | 5% |
| **U2 Uned 4** | 35% | 12% | 13% | 10% |
| **Cyfanswm** | **100%** | **44%** | **33%** | **23%** |

© WJEC CBAC Ltd.

# 4 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 4.1 Cofrestru

Manyleb unedol yw hon sy’n caniatáu am elfen o asesu mewn camau.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu yr haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael yn 2016 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn haf 2016.

Bydd Uned 3 ac Uned 4 ar gael yn 2017 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster Safon Uwch am y tro cyntaf yn haf 2017.

Gall ymgeiswyr sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Fodd bynnag, os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru am y trydydd tro, yna bydd rhaid i'r ymgeisydd ail-gofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll cymhwyster (dechrau o'r newydd), gall roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol am yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn cael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll.

Mae'r codau cofrestru i'w gweld isod.

| | Teitl | Codau cofrestru | |
|---|---|---|---|
| | | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| UG Uned 1 | Caffael Diwylliant | 2200U1 | 2200N1 |
| UG Uned 2 | Deall Cymdeithas a Dulliau o Ymchwilio Cymdeithasegol | 2200U2 | 2200N2 |
| U2 Uned 3 | Grym a Rheolaeth | 1200U3 | 1200N3 |
| U2 Uned 4 | Anghydraddoldeb Cymdeithasol a Dulliau Cymhwysol o Ymchwilio Cymdeithasegol | 1200U4 | 1200N4 |
| Cyfnewid Cymhwyster UG | | 2200QS | 2200CS |
| Cyfnewid Cymhwyster Safon Uwch | | 1200QS | 1200CS |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar gofrestru am y fanyleb hon gydag unrhyw fanyleb UG neu Safon Uwch CBAC arall.

© WJEC CBAC Ltd.

## 4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG UG yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A i E. Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG Uwch yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A* i E. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig). Defnyddir llythyren fach a i e i ddangos graddau unedau ar slipiau canlyniadau ond nid ar y tystysgrifau.

Defnyddir y Raddfa Marciau Unffurf (GMU) mewn manylebau unedol fel ffordd o adrodd, cofnodi a chyfansymio canlyniadau asesiadau uned ymgeiswyr. Mae'r GMU yn cael ei defnyddio fel y bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd yr un safon yn cael yr un marc unffurf, pryd bynnag y cymerwyd yr uned. Bydd canlyniadau unedau unigol a'r dyfarniad pwnc cyffredinol yn cael eu mynegi fel marc unffurf ar raddfa sy'n gyffredin i bob cymhwyster TAG. Mae cyfanswm o 200 marc unffurf i'r TAG UG a chyfanswm o 500 marc unffurf i'r TAG Safon Uwch. Mae cyfanswm marciau unffurf unrhyw uned yn dibynnu ar y pwysoli am yr uned honno yn y fanyleb.

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau uned fel a ganlyn:

| | | **Gradd yr uned** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pwysoli'r Uned** | **Marc unffurf mwyaf yr uned** | **a** | **b** | **c** | **d** | **e** |
| **Uned 1 (15%)** | 75 | 60 | 53 | 45 | 38 | 30 |
| **Uned 2 (25%)** | 125 | 100 | 88 | 75 | 63 | 50 |
| **Uned 3 (25%)** | 125 | 100 | 88 | 75 | 63 | 50 |
| **Uned 4 (35%)** | 175 | 140 | 123 | 105 | 88 | 70 |

Mae'r marciau unffurf a enillwyd am bob uned yn cael eu hadio at ei gilydd a seilir gradd y pwnc ar y cyfanswm hwn.

| | | **Gradd y cymhwyster** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Marciau unffurf mwyaf** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** |
| **TAG UG** | 200 | 160 | 140 | 120 | 100 | 80 |
| **TAG Safon Uwch** | 500 | 400 | 350 | 300 | 250 | 200 |

Ar gyfer Safon Uwch, dyfernir Gradd A* i ymgeiswyr sydd wedi ennill Gradd A (400 marc unffurf) yn y cymhwyster Safon Uwch cyffredinol ac o leiaf 90% o gyfanswm y marciau unffurf ar gyfer yr unedau U2 (270 marc unffurf).



© WJEC CBAC Ltd.